Gweddi o Nesâd

Gan nad oes ynof rinwedd na chymhwyster i nesáu atat ti' O Dduw, deuaf fel yr wyf, yn dlawd, yn wael, yn wan, gan bwyso'n unig ar dy gariad a'th drugaredd di yn Iesu Grist. **Amen**. E ap N Roberts, Amser i Dduw, 2004, t.25.

Salm 46

DUW sydd noddfa a nerth i ni, cymorth hawdd ei gael mewn cyfyngder.
Am hynny nid ofnwn pe symudai y ddaear, a phe treiglid y mynyddoedd i ganol y môr:
Er rhuo a therfysgu o'i ddyfroedd, er crynu o'r mynyddoedd gan ei ymchwydd ef.
Y mae afon, a'i ffrydiau a lawenhânt ddinas DUW; cysegr preswylfeydd y Goruchaf.
DUW sydd yn ei chanol; nid ysgog hi: DUW a'i cynorthwya yn fore iawn.
Y cenhedloedd a derfysgasant, y teyrnasoedd a ysgogasant: efe a roddes ei lef, toddodd y ddaear.
Y mae ARGLWYDD y lluoedd gyda ni; y mae DUW Jacob yn amddiffynfa i ni.
Deuwch, gwelwch weithredoedd yr ARGLWYDD; pa anghyfanedd-dra a wnaeth efe ar y ddaear.
Gwna i ryfeloedd beidio hyd eithaf y ddaear; efe a ddryllia y bwa, ac a dyr y waywffon, efe a lysg y cerbydau â thân.
Peidiwch, a gwybyddwch mai myfi sydd DDUW: dyrchefir fi ymysg y cenhedloedd, dyrchefir fi ar y ddaear.
Y mae ARGLWYDD y lluoedd gyda ni; amddiffynfa i ni yw DUW Jacob.

Bu llawer o sôn ar y cyfryngau yn ddiweddar am gyrchfannau gwyliau posibl eleni. Lleoedd diogel a hygyrch na fyddai'n rhaid hunan ynysu am ddyddiau wedi bod yno. Clywsom dro ar ôl tro pa mor awyddus yw pobl i gael seibiant a newid, a'r honiad

cyson ein bod yn haeddu hyn ar ôl y fath flwyddyn ag a gafwyd.

Yn y traddodiad Cristnogol ystyrir mynd ar daith i le arbennig yn aml yn bererindod, a chysylltir hynny weithiau hefyd â seibiant a gorffwys. Ond nid ar haeddiant y pererin y bydd y pwyslais yn gymaint ag ar ei angen, ei awydd am adnewyddiad a'i ddyhead, efallai, am heddwch a thangnefedd.

Bu Ynys Enlli, a anfarwolwyd gan y bardd T Gwynn Jones, yn gyrchfan i'r pererinion ers canrifoedd;

Mae yno ugain mil o saint
Ym mraint y môr a'i genlli,
Ac nid oes dim a gyffry hedd
Y bedd yn Ynys Enlli.

I'r Iddew roedd Jerwsalem yn gyrchfan i'r pererinion a dinas Duw. Yno, yn sŵn dathliadau'r Deml, cai'r pererinion gyfle i addoli ac atgyfnerthu, ac un o brofiadau mawr bywyd, fel y dengys hanes Iesu yn ddeuddeg oed, oedd mynd ar bererindod i Seion (gw. Luc 2:41-52).

Ond beth sy'n gwneud lle fel Seion neu Ynys Enlli yn arbennig? Mewn gair, ymdeimlad o'r cysegredig a'r dwyfol. Presenoldeb Duw oedd yn gwneud Seion yn arbennig i'r Iddew, ac ymdeimlad o'r ysbrydol sy'n gwneud Enlli'n arbennig i amryw heddiw. Y lle ei hun a'i awyrgylch a'i hanes, yn ogystal â'r disgwyliad yng nghalon y saint wrth gyrraedd a'r tangnefedd a brofant cyn ymadael. Duw ei hun yw ein noddfa a'n nerth, meddai'r Salmydd, a'i bresenoldeb ef a rydd hyder a diogelwch.

Am dair canrif gyntaf ei hanes nid oedd gan yr Eglwys adeiladau, deuai'r credinwyr ynghyd lle bynnag y ceid cyfle, a'r hyn oedd yn bwysig iddynt oedd y gred a'r ymdeimlad fod Duw ei hun drwy ei Ysbryd yn bresennol; 'Lle mae dau neu dri wedi ymgynnull yn fy enw i, yno yr wyf finnau yn y canol.'

Dod, nid i foddhau eu hunain ond i foliannu Duw wnâi'r pererinion. Ymgynnull, nid am eu bod yn haeddiannol, ond am fod ganddynt destun diolch wna'r addolwyr.

'Peidiwch, a gwybyddwch mai myfi sydd DDUW: dyrchefir fi ymysg y cenhedloedd, dyrchefir fi ar y ddaear.
Y mae ARGLWYDD y lluoedd gyda ni; amddiffynfa i ni yw DUW Jacob.'

Gweddi

Rho i ni'r noddfa y mae ei hangen arnom,
O Dduw cariadus,
noddfa dan d'adenydd.
Amddiffyn ni rhag popeth yr ydym yn ei ofni,
O Dduw ffyddlon,
trwy ein gwarchod rhag perygl.
Cadw ni rhag temtasiwn,
O Dduw graslon,
fel y bo i ni ddewis y llwybr cywir.
Bydd gyda ni, a boed i ni deimlo dy bresenoldeb,
O Dduw trugarog,
ar bob cam o daith bywyd.
Gweddïwn yn enw Iesu. **Amen.**

Emyn 682

Pererin wyf mewn anial dir
yn crwydro yma a thraw,
ac yn rhyw ddisgwyl bob yr awr
fod tŷ fy Nhad gerllaw.

Tyrd, Ysbryd Sanctaidd, ledia'r ffordd,
bydd imi'n niwl a thân;
ni cherdda' i'n gywir hanner cam
oni byddi di o'm blaen.

Mi wyraf weithiau ar y dde
ac ar yr aswy law;
am hynny arwain, gam a cham
fi i'r baradwys draw.

Mae hiraeth arnaf am y wlad
lle mae torfeydd di-ri'
yn canu'r anthem ddyddiau'u hoes
am angau Calfarî. WILLIAM WILLIAMS, 1717-91

Ctrl a chlic

https://youtu.be/Qwku0ATXIzI

Rhian Mair Lewis

Y Fendith

Boed i ddaioni Duw eich nerthu.
Boed i drugaredd Duw eich cysuro.
Boed i addewid Duw o fywyd tragwyddol eich ysbrydoli â gobaith a chariad.
Yn enw'r Tad, y Mab a'r Ysbryd Glân.
Amen.